

Mae Plas Dwbl yn fferm bio-ddeinamig 100 erw wrth droed y Preseli, ac yn ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer Coleg Ruskin Mill.

## **THERAPYDD IAITH A LLEFERYDD (SALT)**

**Gradd 11:12, SCP 51 - SCP 60**

**CALI £32,074 - £38,317 y flwyddyn**

**Plws ychwanegiad marchnad o £2,400 y flwyddyn**

**Patrwm gwaith, 40 awr yr wythnos, 37 wythnos y flwyddyn**

**Lleolir yng Ngholeg Plas Dwbl, Sir Benfro**

Diben y rôl yw gweithio'n therapiwtig gyda grwpiau bach neu benodol o fyfyrwyr ar sail asesiadau o anghenion cymorth a datblygiadol y myfyrwyr.

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd gofleidio, cyfleu a gweithio'n unol ag ethos yr Ymddiriedolaeth, sy'n cael ei lywio gan addysg Steiner, ac yn cael ei gynnal, ei weithredu a'i integreiddio yn narpariaeth therapiwtig y Coleg. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad o weithio gyda myfyrwyr sydd ag ystod eang o alluoedd, a bydd yn meddu ar y sgiliau canlynol: **Bydd y Prif Ddyletswyddau'n cynnwys:**

- Y gallu i weithio gyda phobl ifanc sydd ag anhwylderau sbectrwm awtistig, anabledau dysgu ac anawsterau cysylltiedig ag oedi datblygiadol;
- Asesu anghenion myfyrwyr cyn iddynt gychwyn yn y coleg;
- Darparu tystiolaeth yn sgîl asesu ar gyfer tribiwnlysoedd addysg;
- Cynllunio a chyflawni anghenion iaith a lleferydd therapiwtig myfyrwyr unigol sydd ag amrywiaeth eang o anghenion;
- Y gallu i fynegi a chyfleu canfyddiadau asesu i amrywiaeth eang o staff y Coleg - gall hyn gynnwys cyflwyno hyfforddiant i'r staff;
- Gweithio ar y cyd â'r tîm therapi a thiworiaid o fewn y Coleg;
- Gweithio tuag at ddeilliannau myfyrwyr fel y manylir arnynt yn yr EHCP.

**Er mwyn cyflawni'r swydd hon yn llwyddiannus bydd gennych chi:**

- MSc mewn Astudiaethau Cyfathrebu Clinigol neu gymhwyster cyfatebol;
- Aelodaeth o'r Cyngor Iechyd Proffesiynol;
- Aelodaeth o'r Coleg Iaith a Lleferydd Brenhinol;
- O leiaf dwy flynedd o brofiad yn gweithio fel Therapydd Iaith a Lleferydd;
- Gwybodaeth am addysg arbenigol;
- Profiad o weithio gyda dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledau dysgu;
- Sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol.

**Dyddiad cau: Hanner dydd, dydd Mawrth, 20 Chwefror 2018**

**Sylwer: Rydym ni'n cadw'r hawl i gau'r hysbyseb hon yn gynharach os deawn o hyd i ymgeisydd addas**  
Mae Ymddiriedolaeth Ruskin Mill yn ymroddedig i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i'w holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwnnw. Bydd rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod yn destun Datgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).